



Blaenoriaethau polisi ar gyfer Llywodraeth nesaf Cymru



**Sicrhau bod pob plentyn sy'n ddifrifol wael yn
gallu cael mynediad at y gofal lliniarol sydd ei
angen arnyn nhw**



Blaenoriaethau polisi ar gyfer Llywodraeth nesaf Cymru

Sicrhau bod pob plentyn sy'n ddifrifol wael yn gallu cael mynediad at y gofal lliniarol sydd ei angen arnyn nhw

April 2021

Together for Short Lives

T: 0117 989 7820

E: info@togetherforshortlives.org.uk

W: www.togetherforshortlives.org.uk

Helpline: 0808 8088100

Together for Short Lives is a registered charity in England and Wales (1144022) and Scotland (SC044139) and is a company limited by guarantee (7783702)

Ynglŷn â Together for Short Lives

1. Elusen ar gyfer gofal lliniarol i blant yng ngwledydd Prydain yw Together for Short Lives. Rydym yma i gefnogi a grymuso teuluoedd sy'n gofalu am blant sy'n ddifrifol wael, ac i adeiladu sector gofal lliniarol i blant sy'n gryf ac yn gynaliadwy. Rydym yn cefnogi'r holl weithwyr proffesiynol a'r gwasanaethau gofal lliniarol i blant sy'n darparu gofal hollbwysig. Mae ganddon ni dros 1,000 o aelodau, gan gynnwys hosbisau plant, sefydliadau sector gwirfoddol a darparwyr gwasanaethau statudol.
2. Rydym yn gweithio'n agos gyda sefydliadau sy'n darparu gofal hosbis i blant a phobl ifanc Cymru – Tŷ Hafan a Tŷ Gobaith – a'r gweithwyr proffesiynol a'r gwasanaethau yn y sectorau statudol a gwirfoddol sy'n cynnwys Rhwydwaith Gofal Lliniarol Pediatrig Cymru Gyfan. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gydag elusen Hospice UK ac yn cefnogi'r polisiau maen nhw wedi'u nodi ym [mhapur Etholiadau'r Senedd 2021](#)¹.

Crynodeb

3. Mae teimlo'n ynysig ac yn unig eisoes yn gyffredin iawn ymysg teuluoedd sy'n gofalu am blant sy'n ddifrifol wael, ond mae pandemig y coronafeirws wedi gwaethgu hyn. Mae'n bosib y bydd llawer o rieni, sydd wedi blino'n lân ar ôl darparu gofal bob awr o'r dydd ers misoedd i'w plentyn gartref, yn dewis parhau i warchod eu plentyn a'u teulu ar ôl i reolau cadw pellter cymdeithasol ddod i ben oherwydd eu bod yn nerfus iawn am yr effaith y gallai dal COVID-19 ei chael ar eu cartrefi.
4. Mae angen i Lywodraeth nesaf Cymru ymrwymo i sicrhau bod modd i bob plentyn sydd â chyflwr sy'n cyfyngu ar eu bywyd, a'u teuluoedd, gael y cymorth sydd wirioneddol ei angen arnynt. Drwy weithio gyda gweithwyr proffesiynol a gwasanaethau gofal lliniarol i blant yng Nghymru, rydym wedi nodi camau gweithredu y dylai'r pleidiau sy'n cystadlu yn etholiadau'r Senedd yn 2021 ymrwymo i fynd i'r afael â nhw os byddant yn rhan o Lywodraeth nesaf Cymru. Mae'r rhain i gyd mor bwysig â'i gilydd, a dylid eu gweithredu ar y cyd:

¹ Hospice UK. 2021. Etholiadau'r Senedd 2021. Ar gael yn: [https://www.hospiceuk.org/docs/default-source/Policy-and-Campaigns/briefings-and-consultations-documents-and-files/huk-manifesto-calls-2021-\(full\).pdf?sfvrsn=0](https://www.hospiceuk.org/docs/default-source/Policy-and-Campaigns/briefings-and-consultations-documents-and-files/huk-manifesto-calls-2021-(full).pdf?sfvrsn=0)

1. Dylai Llywodraeth Cymru ariannu'r rhaglen gofal lliniarol a'r rhaglen gofal diwedd oes newydd er mwyn galluogi iddi ariannu Rhwydwaith Gofal Lliniarol Pediatrig Cymru Gyfan yn gynaliadwy dros oes y Chwched Senedd.

- Dylai hyn gynnwys arian i sicrhau gwasanaethau nyrsio cymunedol ar alw a ariennir yn gynaliadwy, sy'n golygu bod modd i blant sydd â chyflyrau sy'n cyfyngu ar eu bywydau neu'n peryglu eu bywydau gael mynediad at ofal diwedd oes a gwasanaethau rheoli symptomau o'u cartrefi, 24 awr y dydd saith diwrnod yr wythnos, os yw eu teuluoedd yn dewis hynny.
- Byddai hyn yn cael ei gefnogi gan dîm cenedlaethol o nyrsys gofal lliniarol pediatrig arbenigol sy'n cynnig cyngor dros y ffôn 24 awr y dydd.

2. Dylai Llywodraeth Cymru greu Cronfa Achubiaeth ar gyfer Tŷ Hafan a Tŷ Gobaith, sef yr hosbisau plant yng Nghymru, er mwyn darparu'r gofal bydymor (lliniarol) arbenigol sydd ei angen ar blant â chyflyrau sy'n cyfyngu ar eu bywydau neu'n peryglu eu bywydau, a'u teuluoedd, mewn modd teg a chynaliadwy.

- Dylai'r gronfa godi cyllid statudol ar gyfer hosbisau plant yng Nghymru i'r un lefel â gwledydd eraill Prydain, ac mae pob un yn cyfrannu canran uwch na Chymru at hosbisau plant.
- Rhaid i'r adolygiad a addawyd ar gyfer trefniadau ariannu holl hosbisau Cymru adlewyrchu anghenion penodol gofal lliniarol gydol oes a diwedd oes plant a phobl ifanc yn gywir.

Gofal lliniarol i blant: beth yw hyn a phwy yw'r plant a'r teuluoedd y mae ei angen arnynt

5. Mae clywed y newyddion fod gan eich plentyn gyflwr sy'n cyfyngu ar eu bywyd a'u bod yn debygol o farw'n ifanc yn dorcalonnus. Mae'n gyfnod hynod anodd a dryslyd. Mae gan y plant hyn gyflyrau cymhleth ac anrhagweladwy, ac yn aml mae angen gofal bob awr o'r dydd, saith diwrnod o'r wythnos arnynt nhw.
6. Mae'n rhaid i deuluoedd ymdopi â'r ffaith y bydd eu plentyn yn marw cyn nhw, a gall bywyd bob dydd fod yn heriol i'r teulu cyfan. Er bod llawer o wasanaethau gwych yn eu helpu, mae llawer o deuluoedd yn dal yn ei chael hi'n anodd cael mynediad at y gofal a'r cymorth angenrheidiol.
7. Mae'r effaith ar deuluoedd yn ddifrifol. Mae ymchwil newydd yn dangos bod mamau plant sydd â chyflyrau sy'n cyfyngu ar eu bywydau yn llawer mwy tebygol o ddatblygu problemau iechyd meddwl a chorfforol difrifol, o gymharu â mamau sy'n gofalu am blant sydd heb gyflyrau iechyd hirdymor². Mae'r perygl o farwolaeth cynamserol i famau plant

² Fraser LK, Murtagh FE, Aldridge J, ac eraill, Health of mothers of children with a life-limiting condition: a comparative cohort study Archives of Disease in Childhood Published Online First: 02 Mawrth 2021. doi: 10.1136/archdischild-2020-320655. Ar gael i'w lawrlwytho yn <https://bit.ly/2Py6RnW>

sydd â chyflyrau sy'n cyfyngu ar eu bywydau dros 50% yn uwch o gymharu â mamau plant sydd heb gyflwr iechyd hirdymor. Yn ogystal, mae iselder, gorbryder a salwch iechyd meddwl, yn ogystal â chyflyrau corfforol fel clefyd cardiofasgwlaidd, diabetes math 2, gorbwysedd gwaed a gordewdra yn sylweddol uwch ymysg mamau sydd â phlant sy'n ddifrifol wael.

8. Mae angen gofal lliniarol ar blant sydd â chyflyrau sy'n cyfyngu ar eu bywydau o'r adeg y byddant yn cael diagnosis neu'n cael cydnabyddiaeth tan ddiwedd eu hoes. Mae angen gofal a chymorth ar deuluoedd drwy gydol cyfnod salwch eu plentyn, gan gynnwys gofal profedigaeth ar ôl iddyn nhw farw. Mae gofal lliniarol i blant yn cynnwys, ymhlith eraill, gofal diwedd oes, ac ni ddylai'r ddau derm gael eu defnyddio'n gyfnewidiol.
9. Mae'r plant hyn a'u teuluoedd yn dibynnu ar ofal lliniarol sy'n cael ei ddarparu mewn ysbytai, hosbisau plant ac yn y gymuned, gan y sectorau statudol a gwirfoddol. Mae darparwyr gofal lliniarol i blant yn cynnig ystod o wasanaethau, gan gynnwys cefnogi teuluoedd i reoli poen a symptomau anghysurus eu plant, darparu seibiannau byr i blant a'u teuluoedd a chynnig cymorth profedigaeth cyn i'r plentyn farw ac ar ôl hynny.
10. Hoffai teuluoedd allu dewis lle maen nhw'n derbyn y gwasanaethau gofal lliniarol hollbwysig i blant maen nhw'n dibynnu arnynt, pan fydd arnyn nhw eu hangen a'u heisiau. Hoffen nhw hefyd ddewis pwy sy'n gofalu am eu plentyn a pha driniaethau y byddan nhw'n eu cael.
11. Mae'n amlwg fod nifer y plant y mae angen gofal lliniarol arnyn nhw'n cynyddu. Er nad oes data diweddar am y nifer o blant y mae angen gofal lliniarol arnyn nhw yng Nghymru, mae modd amcangyfrifo'r niferoedd ar sail y data sydd ar gael yn Lloegr. Rhwng 2010 a 2014, amcangyfrifwyd bod nifer absoliwt y plant sydd â chyflyrau sy'n cyfyngu ar eu bywydau wedi codi 28%; erbyn 2016, roedd yr amcangyfrif wedi codi i 3,200 o blant. [Yn 2020, amcangyfrifir mai'r boblogaeth o blant a phobl ifanc yng Nghymru sydd â chyflyrau sy'n cyfyngu ar eu bywydau yw rhwng 3,580 a 3,720](#)³.

Yr heriau ychwanegol sy'n wynebu plant sy'n ddifrifol wael a'u teuluoedd yn sgil y pandemig

12. Mae pandemig COVID-19 a'r cyfnod clo wedi cael effaith ddramatig ar blant sydd â chyflyrau sy'n cyfyngu ar eu bywydau a'u teuluoedd. [Canfu Together for Short Lives, ar y cyd â Chanolfan Ymchwil Martin House a Phrifysgol Southampton](#)⁴, bod y rhan fwyaf o deuluoedd sy'n gofalu am blentyn sydd â chyflwr sy'n cyfyngu ar eu bywydau yn teimlo'n fwy ynysig ac unig nag erioed yn ystod pandemig y Coronafeirws, wrth i rai rhieni ddisgrifio eu bod yn teimlo fel "grŵp sydd wedi mynd yn angof":
 - Roedd 93% o deuluoedd yn teimlo'n ynysig yn ystod y pandemig
 - Dywedodd 57% bod teimlo'n ynysig wedi creu atgofion negyddol
 - Mae 95% yn ofni y gallai eu plentyn ddal y feirws gan riant
 - Mae 93% yn ofni y bydd triniaeth eu plentyn yn cael ei chanslo neu oedi

³ Lorna K Fraser ac eraill, 2020. Make Every Child Count. Ar gael yn: https://www.togetherforshortlives.org.uk/wp-content/uploads/2020/04/Prevalence-reportFinal_28_04_2020.pdf

⁴ Together for Short Lives, Canolfan Ymchwil Martin House, Prifysgol Southampton. 2020. Forgotten Families. Ar gael yn: <https://www.togetherforshortlives.org.uk/forgotten-families-families-feel-more-isolated-than-ever-under-lockdown/>

13. Mae teimlo'n ynysig ac yn unig eisoes yn gyffredin iawn ymysg teuluoedd sy'n gofalu am blant sy'n ddifrifol wael, ond mae pandemig y coronafeirws wedi gwaethgu hyn. Mae'n bosib y bydd llawer o rieni, sydd wedi blino'n lân ar ôl darparu gofal bob awr o'r dydd ers misoedd i'w plentyn gartref, yn dewis parhau i warchod eu plentyn a'u teulu ar ôl i reolau cadw pellter cymdeithasol ddod i ben oherwydd eu bod yn nerfus iawn am yr effaith y gallai dal COVID-19 ei chael ar eu cartrefi.

Sicrhau mynediad 24/7 at ofal lliniarol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n ddifrifol wael

14. [Mae Safon 6 safon ansawdd 161 y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal \(NICE\) ar gyfer 'Gofal diwedd oes ar gyfer babanod, plant a phobl ifanc'](#)⁵ yn nodi y dylai babanod, plant a phobl ifanc sy'n cyrraedd diwedd eu hoes ac sy'n derbyn gofal yn eu cartrefi gael mynediad bob awr o'r dydd at ofal nyrsio plant a chynghor gan ymgynghorydd mewn gofal lliniarol pediatriig.
15. Mae i ba raddau y gall plant a phobl ifanc sy'n ddifrifol wael ddewis cael gofal lliniarol yn eu cartrefi, gan gynnwys ar ddiwedd eu hoes, yn dibynnu i raddau helaeth ar b'un a ydynt yn gallu cael mynediad at wasanaethau nyrsio plant cymunedol 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos. Mae modd i wasanaethau nyrsio plant cymunedol gael eu darparu gan y gwasanaeth iechyd, timau hosbisau plant yn eu cartrefi neu gyfuniad o'r ddau.
16. Mae'n peri pryder mai ychydig iawn o nyrsys plant cymunedol sydd â'r sgiliau a'r profiad angenrheidiol i ddarparu gofal lliniarol i blant a phobl ifanc. Mae hyn yn golygu bod gormod o blant a theuluoedd yn methu allan ar y gofal a'r cymorth sydd ei angen arny'n nhw, pan a lle fydd ei angen arny'n nhw. Mae hefyd yn golygu bod gormod o blant sy'n ddifrifol wael yn gorfod mynd i'r ysbyty yn annisgwyl ac mewn argyfwng am gyfnodau hir o amser, pan fyddai wedi bod yn bosib diwallu eu hanghenion yn eu cartrefi. O ganlyniad, nid yw'r gwasanaeth iechyd yn llwyddo i wneud arbedion ariannol ar yr adnoddau mae'n ei wario ar y plant hyn a'u teuluoedd.
17. Yn 2018, cyhoeddodd y [Grŵp Trawsbleidiol ar Ofal Lliniarol a Hosbisau](#)⁶ adroddiad ar sail ei ymchwiliad i anghydraddoldebau o ran mynediad at hosbisau a gofal lliniarol. [Nododd yr adroddiad brinder nyrsys plant cymunedol a'r amrywiaeth yn niferoedd a sgiliau'r nyrsys plant cymunedol rhwng ardaloedd](#)⁷. Roedd yn argymhell y dylai'r Bwrdd Gweithredu Gofal Diwedd Oes ddatblygu cynllun gweithredu cadarn i fynd i'r afael â'r diffygion mewn nyrsio cymunedol ar gyfer plant a phobl ifanc, ac oedolion ag anghenion gofal lliniarol. Canfu'r adroddiad y dylai plant a phobl ifanc sydd â chyflyrau sy'n cyfyngu ar eu bywydau gael yr un dewisiadau ag oedolion ar ddiwedd eu hoes ynghylch lle i dderbyn gofal a/neu i farw. Er mwyn i hyn weithio, byddai angen mynd i'r afael â niferoedd a sgiliau nyrsys plant cymunedol er mwyn gallu darparu gofal diwedd oes i blant yn eu cartrefi.
18. **Mae Together for Short Lives wedi amcangyfrif yn ddiweddar bod angen 240 o nyrsys plant cymunedol ychwanegol er mwyn darparu gwasanaeth nyrsio plant**

⁵Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE). 2017. End of life care for infants, children and young people. Ar gael yn:

<https://www.nice.org.uk/guidance/qs160/chapter/Quality-statement-6-Care-at-home>

⁶ Y Grŵp Trawsbleidiol ar Ofal Lliniarol a Hosbisau. 2021. Ar gael yn:

<https://busnes.senedd.cymru/mgOutsideBodyDetails.aspx?ID=502>

⁷ Y Grŵp Trawsbleidiol ar Ofal Lliniarol a Hosbisau. 2018. Y Grŵp Trawsbleidiol ar Ofal Lliniarol a Hosbisau: Ymchwiliad. Ar gael yn: https://www.hospiceuk.org/docs/default-source/Policy-and-Campaigns/cpg-report_welsh_web.pdf?sfvrsn=4

cymunedol holistaidd. Amcangyfrifwyd hyn drwy ddefnyddio'r nifer presennol o nyrsys plant cymunedol (43) a'r nifer a amcangyfrifwyd y byddai eu hangen drwy ddefnyddio argymhellion y Coleg Nyrsio Brenhinol. Mewn ardal sydd â phoblogaeth o 50,000, byddai angen isafswm o 20 nyrs plant cymunedol Cyfwerth ag Amser Llawn er mwyn darparu gwasanaeth nyrsio plant cymunedol holistaidd (byddai angen 283 o nyrsys plant cymunedol yng Nghymru).

19. Roedd Cynllun Cyflawni ar gyfer Gofal Lliniarol a Diwedd Oes⁸ Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn 2017 yn nodi gweledigaeth y llywodraeth a'r canlyniadau roedd yn dymuno eu cyflawni ar gyfer gwasanaethau gofal lliniarol ar gyfer plant ac oedolion. Roedd y cynllun cyflawni yn anelu at sicrhau:

- Bod plant a phobl ifanc yn cael cymorth priodol yn agosach i'w cartref gan dimau gwasanaeth craidd gyda chymorth, sgiliau a hyfforddiant priodol.
- Bod gan blant, pobl ifanc, eu teuluoedd a'r gweithwyr proffesiynol sy'n gofalu amdanynt fynediad at gyngor a chymorth arbenigol
- Bod gostyngiad mewn arosiadau gofal dwys neu gleifion mewnol mae modd eu hosgoi wrth i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd gael eu cefnogi i reoli cyflyrau'r plentyn neu'r person ifanc yn ddiogel yn eu cartrefi
- Bod plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn cael cymorth gwell gan sefydliadau ehangach fel gwasanaethau cyffredinol a gwasanaethau addysg a gwirfoddol wrth i gysylltiadau allweddol rhwng gwasanaethau craidd gael eu datblygu a'u cynnal
- Bod dewis, rheolaeth a llais gan blant, pobl ifanc a'u teuluoedd dros eu gofal
- Bod cyfleoedd ar gyfer hunanreolaeth yn cael eu gwireddu, eu cynnig a'u cynorthwyo ar gyfer plant, pobl ifanc a'u teuluoedd
- Bod gofalcwyr ac aelodau o'r teulu yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a bod eu hanghenion yn cael eu hasesu a'u diwallu.

20. Mae Rhwydwaith Gofal Lliniarol Pediatrig Cymru Gyfan yn cefnogi gwaith y Bwrdd Gweithredu Gofal Diwedd Oes drwy arwain a hwyluso'r gwaith parhaus o weithredu, cynnal a gwerthuso system gynhwysfawr, integredig a chydlynus o ofal lliniarol/diwedd oes lle bo'n berthnasol i blant.

21. Mae'r rhwydwaith yn cynnwys aelodau o dîm gofal lliniarol pediatrig trydyddol Cymru gyfan, arweinwyr meddygol a nyrsio ym maes gofal lliniarol pediatrig ac arweinwyr trawsnewid o bob bwrdd iechyd lleol, nyrs allgymorth oncoleg bediatrig arbenigol, cynrychiolwyr darparwyr trydydd sector, gan gynnwys hosbisau plant, cynrychiolwyr o wasanaethau gofal cymdeithasol ac addysg, a chynrychiolaeth o Together for Short Lives.

22. Mae cynnydd wedi'i wneud gan y Bwrdd Gweithredu Gofal Diwedd Oes a'r rhwydwaith am y blaenoriaethau hyn i blant a phobl ifanc. Fodd bynnag, nid yw'r Bwrdd Gweithredu Gofal Diwedd Oes yn gallu datrys rhai heriau allweddol – er enghraifft y bwlch mewn gwasanaethau nyrsio plant cymunedol na'r ddarpariaeth gofal seibiant i gefnogi gofalcwyr ac aelodau o'r teulu. Diffyg adnoddau sydd i gyfrif am hyn.

⁸ Llywodraeth Cymru. 2017. Cynllun Cyflawni ar gyfer Gofal Lliniarol a Diwedd Oes.

23. Fe groesawon ni gydnabyddiaeth ddiweddar gan Lywodraeth Cymru am waith rhaglen Gofal Diwedd Oes yn ei [Fframwaith Clinigol Cenedlaethol newydd a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021](#)⁹. Nododd y Fframwaith bod y rhaglen yn rhywbeth cenedlaethol hanfodol ar gyfer ymchwilio i'r heriau, i gefnogi trawsnewid, ac i ddatblygu atebion.
24. Fodd bynnag, rhan o'r her hon yw nad yw'r seilwaith ar gyfer nyrsio plant cymunedol yn cael ei weld fel rhan o ofal lliniarol, ac felly nid yw wedi cael ei ystyried yn rhan o'r hyn mae disgwyl i'r Bwrdd Gweithredu Gofal Diwedd Oes ei ariannu – er bod hyn wedi cael rhagor o gydnabyddiaeth mewn blynyddoedd diweddar. Rheswm arall dros yr her hon yw diffyg adnoddau ar gyfer y Bwrdd, sy'n golygu nad oes modd iddo weithredu i ddarparu gwasanaeth nyrsio plant cymunedol holistaidd.

Er mwyn sicrhau mynediad bob awr o'r dydd at ofal lliniarol yn y cartref i blant a phobl ifanc sy'n ddifrifol wael, mae Together for Short Lives yn galw ar yr holl bleidiau sy'n cystadlu yn etholiadau'r Senedd i ymrwymo i gymryd camau i sicrhau'r canlynol:

- Bod timau nyrsio plant cymunedol, timau hosbis yn y cartref, timau allgymorth mewn ysbytai, neu gyfuniad o'r rhain, yn cael eu cynllunio a'u hariannu'n gynaliadwy gan y gwasanaeth iechyd, ar y cyd â'r hosbisau plant.
- Bod digon o nyrsys plant sydd â'r sgiliau, y wybodaeth a'r profiad angenrheidiol i ddarparu gofal lliniarol i blant yn y gymuned.
- Bod cyfrifoldeb dros seilwaith gwasanaethau nyrsio plant cymunedol yn cael ei osod ar y rhaglen ddiwedd oes gyfredol, a'r rhaglen nesaf, fel rhan allweddol o anghenion gofal lliniarol plant, a'u bod yn cael yr adnoddau angenrheidiol i weithredu er mwyn llenwi'r 240 o swyddi nyrsys plant cymunedol sydd eu hangen er mwyn darparu gwasanaeth nyrsio plant cymunedol holistaidd.

Sicrhau ariannu cynaliadwy ar gyfer hosbisau plant – sydd yr un peth â gwledydd eraill Prydain

25. [Cyhoeddodd hosbisau plant Tŷ Hafan a Tŷ Gobaith adroddiad ym mis Tachwedd 2020](#)¹⁰ a oedd yn cynnwys disgrifiad grymus o anghenion teuluoedd plant sy'n ddifrifol wael. O blith y 133 o deuluoedd sy'n defnyddio gwasanaethau hosbis plant ac a ymatebodd i arolwg Tŷ Hafan a Tŷ Gobaith:

- Dywedodd 94% fod gofal seibiant byr sy'n cael ei ddarparu gan hosbisau plant yn wasanaeth hanfodol
- Dywedodd 85% mai Tŷ Hafan a Tŷ Gobaith oedd yr unig lle lle gallan nhw gael seibiant angenrheidiol gan wybod bod eu plentyn yn derbyn gofal gan weithwyr gofal proffesiynol
- Dywedodd 75% bod angen arosiadau seibiant hirach ac amlach arnyn nhw.

⁹ Llywodraeth Cymru. 2021. Fframwaith Clinigol Cenedlaethol: System Iechyd a Gofal sy'n Dysgu. Ar gael yn: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/fframwaith-clinigol-cenedlaethol-system-iechyd-a-gofal-syn-dysgu.pdf>

¹⁰ Tŷ Hafan a Tŷ Gobaith. 2020. Lleisiau ein teuluoedd. Ar gael yn: <https://cymraeg.tyhafan.org/uploads/Documents/Family-Voices-Project-Cymraeg.pdf>

26. Yn yr adroddiad, nododd teuluoedd bod gwasanaethau hosbis yn hanfodol i les eu plentyn a'r teulu'n gyffredinol, a bod hosbisau yn 'achubiaeth' iddyn nhw. Yn yr adroddiad, meddai'r teuluoedd:

- *"Dyma'n hachubiaeth ... i ni, mae fel galwad 999."*
- *"Dwi ddim yn gwybod beth fyddai wedi digwydd i ni oni bai bod gennym y gefnogaeth ... dim ond gyda chefnogaeth yr hosbis y bu hi'n bosibl i mi ofalu am 'ein plentyn' gyhyd."*
- *"Mae'r llefydd yma'n hanfodol i deuluoedd fel ni, i'r plant ac i'r teuluoedd, y teulu cyfan, nid dim ond y plentyn. Nhw sy'n ein cadw rhag chwalu'n ddarnau."*

27. Disgrifiodd Nerys Davies o Lanrwst bod Tŷ Gobaith yn achubiaeth i lawer o deuluoedd fel ei theulu hi, a bod angen rhagor o ofal seibiant ar frys er mwyn 'stopio teuluoedd rhag chwalu'. Cafodd Bedwyr, ei mab 5 mlwydd oed, ddiagnosis o'r cyflwr genynnol syndrom Coffin-Siris ddwy flynedd yn ôl. Mae'r cyflwr, sy'n achosi anableddau dysgu sylweddol, yn brin iawn a dim ond 200 o blant ledled y byd sydd wedi cael diagnosis ohono. Mae Bedwyr yn cael ei fwydo drwy diwb, mae ganddo broblemau resbiradol ac nid yw'n gallu siarad chwaith.

- *"Y pethau bach yna mae pobl eraill yn gallu eu cymryd yn ganiataol rydych chi wir yn edrych ymlaen atyn nhw, fel gallu cysgu yn y nos, neu eistedd i lawr a bwyta pryd o fwyd mewn heddwch, hyd yn oed os mai dim ond ffa pob ar dost fydd hynny, neu gael paned o de."*
- *"Mae'n erchyll mynd heb gwsg. Mae Bedwyr a fi wedi bod yn cyd-gysgu erioed, sy'n golygu nad ydw i'n cael llawer o gwsg o gwbl. Os bydd unrhyw beth yn digwydd mae bob amser yng nghanol y nos. Mae argyfyngau a gorfod rhuthro i'r ysbyty bob amser yn digwydd am ddau o'r gloch y bore, byth yn y prynhawn."*
- *"Mae seibiant mor bwysig i ni fel rhieni, yn gorfforol ac yn feddyliol, oherwydd heb hynny mae teuluoedd yn cyrraedd man argyfyngus. Mae hynny'n mynd i gostio llawer mwy i'r gwasanaethau cymdeithasol a'r gwasanaethau ieched i ddelio â'r peth."*

28. Nododd y [Strategaeth ar gyfer gofalwyr di-dâl a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2021](#)¹¹ bod gofal seibiant yn hanfodol ar gyfer cynnal ieched a lles y rhai oedd yn gofalu am eraill hefyd. Roedd Together for Short Lives yn croesawu'r ffaith bod y strategaeth yn blaenoriaethu mynediad cyfartal at ffurfiau gwahanol ac arloesol o ofal byr a/neu seibiant, a'i bod wedi ymrwymo i weithio tuag at ddeall yn well sut y gallai gofal seibiant gael ei ddefnyddio, ei ariannu a'i ddarparu gan ystod o ddarparwyr, gan gynnwys cyrff statudol a'r sector preifat a'r trydydd sector.

29. Fodd bynnag, er gwaetha'r gwasanaethau hanfodol maen nhw'n eu darparu i blant sy'n ddifrifol wael a'u teuluoedd, [rhyngddyn nhw, mae Tŷ Hafan a Tŷ Gobaith yn derbyn llai na 10% o'u cyllid blyneddol gan Lywodraeth Cymru](#)¹². Mae'r cyllid hwn yn golygu mai

¹¹ Llywodraeth Cymru. 2021. Strategaeth ar gyfer gofalwyr di-dâl. Ar gael yn: <https://llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2021/3/2/1616489685/strategaeth-ar-gyfer-gofalwyr-di-dal.pdf>

¹² Tŷ Hafan a Tŷ Gobaith. 2021. Hosbisau plant Cymru yn galw am 'gronfa achubiaeth' gynaliadwy newydd a chyllid sydd yr un peth â gwledydd eraill Prydain. Ar gael yn: <https://cymraeg.tyhafan.org/latest-news/2021/03/19/wales-childrens-hospices-call-for-new-sustainable-lifeline-fund-and-funding-parity-with-rest-of-uk/>

hosbisau yng Nghymru sy'n derbyn y lefel leiaf o gyllid statudol o holl wledydd Prydain ar hyn o bryd. Mae hosbisau plant yn Lloegr yn derbyn 21% o'u cyllid gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig – mae hynny dros ddwbl y cyllid mae hosbisau plant yng Nghymru yn ei gael gan y llywodraeth. Yn ogystal, mae hosbisau plant yng Ngogledd Iwerddon yn cael 25% o'u cyllid gan y llywodraeth, ac yn yr Alban mae 50% o incwm hosbisau plant yn dod gan y wladwriaeth.

30. [Mae Tŷ Hafan a Tŷ Gobaith wedi dod ynghyd i alw am 'Gronfa Achubiaeth' gynaliadwy newydd¹³](#) a chyllid sydd yr un peth â gwledydd eraill Prydain. Mae Tŷ Hafan a Tŷ Gobaith yn cynnig symud tuag at fodel ariannu cynaliadwy sy'n cyd-fynd ag elusennau hosbis plant yng ngwledydd eraill Prydain. Byddai'r arian yn rhoi hyder i hosbisau plant gynnal ac ehangu ar eu gwasanaethau er mwyn diwallu anghenion yr holl blant sydd â chyflyrau sy'n cyfyngu ar eu bywydau a'u teuluoedd ledled Cymru, ac yn helpu i ddatrys uchelgais Cymru i fod yn 'wlad dosturiol'.

31. Byddai'r Gronfa Achubiaeth:

- Yn ariannu nosweithiau gofal hanfodol ychwanegol mewn hosbisau plant i blant sydd â chyflyrau sy'n cyfyngu ar eu bywydau. Roedd adroddiad Lleisiau ein Teuluoedd Tŷ Hafan a Tŷ Gobaith yn glir – mae nosweithiau ychwanegol o ofal seibiant dan arweiniad nyrsys ar gyfer pob plentyn a theulu sy'n cael cefnogaeth gan yr hosbisau yn hanfodol i iechyd meddwl a pherthnasoedd y teulu cyfan, ac yn eu harbed rhag 'chwalu'.
- Yn caniatáu i hosbisau ddatblygu cydberthnasau cadarnhaol gyda'r teulu drwy gydol oes y plentyn, yn creu partneriaethau gweithio dibynadwy a dealltwriaeth ddyfnach o anghenion y plentyn a'r teulu. Yn ei dro, byddai hyn yn arwain at ofal diwedd oes a chymorth profedigaeth mwy effeithiol, yn ogystal â gwell canlyniadau i'r teuluoedd ar adeg pan fyddan nhw'n wynebu'r drychineb anochel o golli'u plentyn.
- Yn lleihau'r angen i blant sydd â chyflyrau sy'n cyfyngu ar eu bywydau orfod mynd i'r ysbyty yn annisgwyl ac mewn argyfwng, gan leihau'r pwysau a'r costau ar y gwasanaeth iechyd.
- Yn sicrhau bod hosbisau yn gallu cynnal ac ehangu ar ein gwasanaethau gofal mewn meysydd eraill, fel: ffisiotherapi a chymorth therapiwtig arall, cyngor a chymorth clinigol – ac fel rhan o ecosystem ehangach darparwyr y gwasanaeth iechyd – gofal diwedd oes a chymorth mewn profedigaeth.

Er mwyn cyflawni cyllid cynaliadwy i'r gwasanaeth iechyd ac awdurdodau lleol ar gyfer hosbisau plant – sydd yr un peth â gwledydd eraill Prydain – mae Together for Short Lives yn gofyn i'r pleidiau gwleidyddol sy'n cystadlu yn etholiadau'r Senedd ymrwymo i greu'r Gronfa Achubiaeth fel a gynigiwyd gan Tŷ Hafan a Tŷ Gobaith. Byddai hyn yn sicrhau bod yr holl blant sydd â chyflyrau sy'n cyfyngu ar eu bywydau a'u teuluoedd yn gallu cael y cymorth sydd ei angen arnynt yn fawr.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

¹³ Tŷ Hafan a Tŷ Gobaith. 2021. Cronfa Achubiaeth i Gymru. Ar gael yn: <https://www.hopehouse.org.uk/news/call-for-welsh-childrens-hospices-parity-with-uk?locale=cy>

James Cooper
Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus
james.cooper@togetherforshortlives.org.uk

Dan Steer
Swyddog Polisi a Materion Cyhoeddus
dan.steer@togetherforshortlives.org.uk